2023 – 2028

EIN STRATEGAETH

Business in focus

EIN DIBEN

Rhyddhau'r potensial entrepreneuraidd ym mhob un ohonom a chyfoethogi bywydau

EIN GWELEDIGAETH

Bod yn fenter gymdeithasol ddeinamig, cynaliadwy, llawn effaith wrth wraidd eco-system busnes ffyniannus

EIN GWERTHOEDD

Gallu Grymuso
Â Ffocws
Dibynadwy

CYFLAWNI EIN DIBEN A'N GWELEDIGAETH

RHAGORIAETH CYFLAWNI

- Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
- Partneriaethau â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Leol
- Partneriaeth Banc Busnes Prydain
- Darpariaeth Fasnachol

CYNALIADWYEDD

- Pobl ffyniannus
- Cryfder ariannol
- Ôl-troed ysgafnach

YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL

- Dylanwad cadarnhaol
- Effaith marchnata
- Pobl wybodus
- Effaith gymunedol

TWF AC ARLOESEDD

- Datblygiad busnes
- Buddsoddiad menter
- Arloesedd busnes

CROESO GAN EIN PRIF WEITHREDWR

Croeso cynnes i Business in Focus!

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae fy nghydweithwyr anhygoel a minnau wedi ystyried yn ofalus pwy ydym ni a'r hyn y dymunwn ei gyflawni gyda'n gilydd fel tîm. Aethom ati i ddatblygu rhywbeth rydym yn falch iawn o allu ei alw'n 'strategaeth newydd'. Gobeithio y byddwch yn ei hoffi, oherwydd bydd yn ysgogi'r hyn y dymunwn ei wneud a'r effaith a gawn dros y pum mlynedd nesaf.

Erbyn hyn, mae Business in Focus wedi bod ar waith ers mwy na 30 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi esblygu ac addasu'n barhaus ar sail yr amgylchedd cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a digidol y gweithredwn oddi mewn iddo. O fan cychwyn digon di-nod, rydym wedi tyfu'n un o fentrau cymdeithasol mwyaf blaenllaw a dibynadwy Cymru, gan gynnig **cymorth busnes, lle a chynnyrch ariannol** o'r radd flaenaf i filoedd o gleientiaid. Mae un diben syml a phwysig wrth galon a chraidd ein rheswm dros fodoli – **sef rhyddhau potensial entrepreneuraidd a chyfoethogi bywydau.**

Pam mae hyn yn bwysig? Wel, rydym yn cydnabod y rôl sydd gan y llywodraeth, busnesau ac eraill o ran creu a chynnal cymdeithas ac economi lewyrchus lle caiff pawb y cyfle i lwyddo. Ond gwyddom hefyd fod yna lawer o botensial sydd heb ei ddihysbyddu – a phe gellid gwneud yn fawr o'r potensial hwnnw, byddai modd esgor ar fwy fyth o lwyddiannau.

Rhywbeth sy'n ganolog i'n strategaeth, felly, yw'r cyfle sydd gennym i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer llwyddo. Rydym eisiau grymuso egin fusnesau a busnesau sydd wedi ennill eu plwyf i dyfu neu arallgyfeirio. Rydym eisiau ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid, gan ymwreiddio sgiliau gydol oes a all gyfoethogi bywydau. Ac rydym eisiau defnyddio ein safle i ddylanwadu mewn modd cadarnhaol ar yr ecosystem.

Rhywbeth sy'n hollbwysig i'n llwyddiant ni ac i lwyddiant y rhai a gynorthwywn yw gweithio mewn tîm, mwynhau a dathlu'r hyn a wnawn, troedio'n ofalus ar ein hannwyl amgylchedd a chanolbwyntio bob amser ar yr effaith gymdeithasol drawsnewidiol a gawn.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi!!

Phil Jones

Phil Jones
Prif Weithredwr
Business in Focus

EIN GWAITH

Cymorth Busnes

Cyllid Busnes

Gofod Busnes

1

RHAGORIAETH CYFLAWNI

Mae ein cynnyrch a'n gwasanaethau yn rhyddhau potensial entrepreneuraidd, yn ychwanegu gwerth i'r economi, yn cynnal ein busnes ac yn atgyfnerthu ein safle fel partner o ddewis wrth wraidd yr eco-system busnes.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ein:

Partneriaeth â Llywodraeth Cymru

Drwy arwain Partneriaeth Menter Cymru, byddwn yn darparu gwasanaeth Busnes Cymru o leuenctid i Dwf, gan gyflawni canlyniadau cymdeithasol ac economaidd trawsnewidiol, ac ategu ein darpariaethau masnachol ac o dan gontract eraill.

Partneriaethau â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Leol

Gan ddefnyddio Ffyniant Cyffredin a mentrau llywodraeth datganoledig eraill, byddwn yn darparu cynnyrch a gwasanaethau Cymorth Busnes sy'n cael eu harwain gan y farchnad, gan gyflawni canlyniadau cymdeithasol ac economaidd trawsnewidiol, ac ategu ein darpariaethau masnachol ac o dan gontract eraill.

Partneriaeth Banc Busnes Prydain

Byddwn yn darparu gwasanaeth Benthyciadau i Egin Fusnesau yng Nghymru a byddwn yn datblygu gwasanaethau cydategol eraill, gan esgor ar ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd trawsnewidiol ac ategu'r gwaith contract a'r gwaith masnachol arall a wnawn.

Darpariaeth Fasnachol

Byddwn yn tyfu ein portffolio gofod busnes addasadwy ac yn datblygu i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau masnachol newydd ac ategol sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

2

CYNALIADWYEDD

Rydym ni'n cydbwyso buddsoddiad yn ein pobl, ein helw cymdeithasol a'r mannau rydyn ni'n gweithio ynddyn nhw yn gynaliadwy.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy ein:

Pobl ffyniannus

Byddwn yn parhau i wneud y mwyaf o'n trefniadau gweithio hybrid i sicrhau bod ein pobl yn hapus, yn rhoi o'u gorau, yn datblygu'n broffesiynol ac yn meddu ar ymdeimlad cryf o berthyn.

Cryfder ariannol

Bydd ein dull hirdymor yn rhoi eglurder a sicrwydd i'n dulliau o wneud penderfyniadau a rheoli risg. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am arian, sicrhau canlyniadau trawsnewidiol a sicrhau bod ein perthynas elw, cost a mewnfuddsoddiad yn gytbwys bob amser.

Ôl-troed ysgafnach

Byddwn yn optimeiddio ein gofod a'n galluoedd corfforol a digidol i wella ein heffeithiolrwydd gweithredol a'n dulliau o wneud penderfyniadau yn barhaus, yn sbarduno arloesedd ac yn lleihau ein hôl troed amgylcheddol yn sylweddol.



3

YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL

Mae'r stori rydyn ni'n ei hadrodd yn dylanwadu ar ein diben cymdeithasol ac yn ei alluogi, yn cefnogi ein gweithgareddau masnachol ac o dan gontract, yn gwella ein henw da ac yn dathlu llwyddiant.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ein:

Dylanwad cadarnhaol

Bydd ein cyfathrebu strategol cyfannol a'n gweithgareddau ymgysylltu yn adeiladu partneriaethau, yn gwella ein henw da ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ein eco-system.

Effaith marchnata

Gan gynnwys mewn partneriaeth, bydd ein cynnyrch a'n gwasanaethau marchnata masnachol ac o dan gontract yn galluogi canlyniadau cymdeithasol ac economaidd trawsnewidiol, gan gynyddu ein cyrhaeddiad a chyfrannu at gynaliadwyedd busnes.

Pobl wybodus

Bydd ein pobl yn cael eu cefnogi, eu grymuso a byddant yn wybodus; gan rannu ein llwyddiant a chreu ymdeimlad cryf o berthyn.

Effaith gymunedol

Bydd ein rhaglen ymgysylltu cymunedol yn cyfoethogi bywydau yn y cymunedau rydym ni'n gweithio ynddyn nhw.

4

TWF AC ARLOESEDD

Mae gennym ni feddylfryd entrepreneuraidd ac arloesol sy'n herio'r sefyllfa bresennol, yn grymuso, ac yn manteisio ar gyfleoedd i adnewyddu, tyfu a mesur llwyddiant.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ein:

Buddsoddiad menter

Mewn partneriaeth, byddwn yn datblygu er mwyn profi cysyniad rhaglenni buddsoddi BBaCH / Micro newydd er mwyn cynnig patrwm ar gyfer yr entrepreneuriaeth orau a chefnogi twf BBaCh.

Arloesedd busnes

Byddwn yn grymuso ein pobl ac yn rhoi adnoddau iddynt i ddatblygu cynhyrchion masnachol newydd, mentrau neu syniadau gwella busnes sy'n cyfrannu at ein pwrpas cymdeithasol a'n cynaliadwyedd.

Datblygiad busnes

Bydd gennym adnoddau a'r wybodaeth, a byddwn mewn sefyllfa i fanteisio ar gyfleoedd contract, masnachol a phartneriaeth newydd sy'n tyfu ein heffaith, gan gyfrannu at gynaliadwyedd y busnes.

A FINAL WORD FROM OUR CHAIR

"Wrth feddwl am y math o sefydliad yr hoffwn fod yn rhan ohono ar ôl imi ymddeol o'm swydd amser llawn yn Admiral, gweithiais trwy restr wirio a oedd yn cynnwys tri maen prawf allweddol: A yw'r sefydliad yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol? A yw'r sefydliad yn gwneud pethau'n dda? A oes gan y sefydliad ragolygon uchelgeisiol ac argyhoeddiadol ar gyfer twf? Yn ddi-os, llwyddodd Business in Focus i roi tic ym mhob blwch."

Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.
Rwy'n gwybod o'r gorau y gall adeiladu busnes gwych fod yn waith hynod bleserus a gwerth chweil, i'r entrepreneur ac i'w gymuned. Rwy'n gwybod hefyd y gall fod yn dasg beryglus, gyda llawer o uchafbwyntiau ac iselbwyntiau. I'r sawl sy'n mynd ar y siwrnai entrepreneuraidd honno, bydd Business in Focus wrth law i wneud gwahaniaeth cadarnhaol, a hollbwysig o dro i dro, gan gynnig help llaw, cyngor dibynadwy ac arbenigol, cymorth ysgogiadol a mynediad at rwydwaith busnes pwerus.

Gwneud pethau'n dda.
Cyn yn dod yn Gadeirydd, roedd fy niwydrwydd dyladwy yn cynnwys treulio amser gyda Phil a'r uwch-dîm. Roeddwn yn llawn edmygedd o ddyfnder eu talent, ansawdd eu gwaith, eu portffolio trawiadol a oedd yn prysur ehangu a'u hanes blaenorol maith o ennill tendrau cystadleuol ar gyfer gwasanaethau cymorth busnes. Mae'r llwyddiannau hyn a llwyddiannau eraill yn dangos eu bod yn darparu gwasanaeth rhagorol, ac maent yn ennyn hyder mawr ynof ar gyfer ein dyfodol.

Rhagolygon uchelgeisiol ac argyhoeddiadol ar gyfer twf.
Er mwyn cynnal twf yn yr hirdymor, rhaid cael strategaeth gadarn. Rhaid i'r strategaeth honno gyfleu'r diben mewn modd grymus, ble mae'r busnes yn bwriadu chwarae ac ennill, cyfeiriad clir ac ymdeimlad o symud ymlaen. Mae hon yn strategaeth o'r fath. Bydd yn siapio ein datblygiad dros y pum mlynedd nesaf ac yn ein galluogi i wasanaethu ychwaneg o gleientiaid gydag amrywiaeth ehangach o wasanaethau cymorth gwerthfawr, a hefyd bydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol enfawr at ein hecosystem. Mewn byr eiriau, bydd yn sicrhau y gallwn ryddhau mwy fyth o botensial entrepreneuraidd a chyfoethogi rhagor o fywydau. Diolch.

David Stevens CBE
Cadeirydd, Business in Focus

MENTER GYMDEITHASOL WRTH WRAIDD ECOSYSTEM LEWYRCHUS

www.businessinfocus.co.uk

Business in focus